

Draw, draw yn China - a all hyn barhau?

Yr Athro Gareth Wyn Jones yn rhoi ei argraffiadau o wlad fwya'r byd ac oblygiadau ei thwf rhyfeddol.

MAE taith i China yn sobri dyn!

Mi ges i wahoddiad i siarad mewn cynhadledd ar '*Global Climate Change and its Impacts on Food and Energy Security in the Drylands*' yn Beijing diwedd Mawrth. Ar ôl tipyn o ymboeni, derbyniais.

Anodd ydi crynhoi fy argraff o China a hawdd iawn yw camddehongli a gor-ddehongli gan mai dim ond am ychydig dros wythnos yr oedden ni yno a dim ond dwy dref welson ni – sef Beijing a Xi'an.

Yn argraff fwya' yw'r bwrlwm pobol, traffig a'r twf anhygoel.

O gwmpas Beijing mae yna chwe chylch consentrig o draffyrdd – pob '*ring road*' yn fwy na'r A55 a'r M4, gyda thair neu bedair lôn i'r ddau gyfeiriad yn cario traffig bron yn ddi-baid. Roedd yn dawelach ar y Sul!

O'n cwmpas roedd yna gannoedd o dyrrau o fflatiau, naill ai newydd eu codi neu yn y broses o gael eu hadeiladu – tyrrau o tua 35 i 40 llawr. A cheir, a bysiau ym mhob man – llawer o'r ceir o'r Almaen, a hynny'n beth boddhaol iawn yng ngolwg cyfaill o'r wlad honno oedd efo ni.

Soniwyd wrthon ni bod poblogaeth Beijing tua 22 miliwn ac yn tyfu o filiwn y flwyddyn ers y Gemau Olympaidd – anhygoel. Anodd gwybod os yw hyn yn wir ond, heb os, mae'n ddinas i bobol ifanc, er bod China wedi mabwysiadu polisi un plentyn i bob teulu ddegawdau yn ôl.

Yn ôl pob golwg, mae'r ifanc yn tyrru i'r ddinas o'r wlad ac yn mabwysiadu dillad y gorllewin ac yn bwyta yn KFC a MacDonaldd a'u dynwaredwyr Chineaid.

Roedd yr un peth i'w weld yn Xi'an sydd, yn ôl ein tywysydd, yn ddinas ail reng – dim ond 6 miliwn o bobol, dwywaith poblogaeth Cymru.

Yn Xi'an roedd fel petai'r ddinas yn carlamu dros y tir amaethyddol cyfagos. Ac yn y ddwy ddinas roedd haen o lwch ym mhob man oherwydd bod y pridd yn chwythu yn y gwynt.

Pan gyrhaeddodd ni Beijing anodd oedd gweld y ddinas oherwydd y smog a'r llwch ond roedden ni'n lwcus ... diflannodd y tARTH a'r llygredd gyda gwynt oer y gogledd ac mi welson ni'r Ddinas Waharddedig hanesyddol mewn heulwen glir.

Dim ond yno ac yn Sgwâr Tiananmen y gwelsom ni grwpiau o henoed yn cael eu tywys i weld rhyfeddodau hanesyddol yr Ymerodraethau Chineaid.

Mae'r twf economaidd yn syfrdanol a siopau yn llawn o Gucci a Calvin Klein, er nad yw grym y wladwriaeth yn bell o dan yr wyneb.

Os bu gwlad erioed ar olwyn droed, China ydi honno. Er bod miliynau lawer wedi gwella eu byd, mae miliynau ar ôl eto yn y pentrefi tlawd yn disgwyl yn eiddgar am gyfleoedd iddyn nhw eu hunain neu i'w plant. Ac mae tua 1.3 biliwn ohonyn nhw i gyd – un o bob chwech o'r ddynoliaeth.

Mae hyn oll yn dibynnu ar adnoddau naturiol – dŵr a bwyd ac ynni a mwynau. Dyma'r cwestiwn mawr – a all hyn barhau yn wyneb newid hinsawdd?

Ac os bydd y swigen yn chwythu, be ddaw wedyn?

[Ebrill 4, 2013]